# DOGFEN YMGYNGHORI YNGLŶN Â'R CYNNIG I FFEDEREIDDIO

Ysgol Gymunedol Trimsaran

ac

Ysgol Gymraeg Ffwrnes

*o'r 5ed o Ionawr 2026 ymlaen*

**Cynnwys**


1. Rhagarweiniad
2. Cynnig
3. Y Cefndir a'r Sbardunau ar gyfer Newid
4. Trosolwg o Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes
    - 4.1. Ysgol Gymunedol Trimsaran
    - 4.2. Ysgol Gymraeg Ffwrnes
5. Y Manteision a'r Heriau sy'n Gysylltiedig â Gweithio mewn Ffederasiwn
    - 5.1. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â Ffedereiddio?
6. Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu
7. Arweinyddiaeth a Strwythur
8. Y Broses Ffedereiddio
9. Derbyniadau
10. Ymgynghoriad
    - 10.1. Amserlen Arfaethedig
11. Casgliad
12. Atodiadau
    - 12.1. Atodiad A - Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad
    - 12.2. Atodiad B - Cwestiynau ac Atebion Cychwynnol

## 1. Cyflwyniad

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i gydweithio drwy broses strwythuredig ffurfiol, a hynny drwy rannu un Corff Llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf yr holl ysgolion, staff a disgyblion yn y Ffederasiwn hwnnw.

Mae Cyrff Llywodraethu Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad ynghylch cynnig i sefydlu Ffederasiwn rhwng Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes. Pe bai'n cael ei gytuno, byddai'r ffedereiddio hwn yn dechrau o 01/01/2026.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio darparu gwybodaeth am y ffedereiddio arfaethedig a gyflwynwyd gan y ddau gorff llywodraethu. Rydym yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr, holl staff a chynghorau ysgol y ddwy ysgol, Cyngor Sir Caerfyrddin ac undebau llafur perthnasol.

Mae'r ymgynghoriad statudol hwn ynglŷn â ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes, yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014. Bydd yn dechrau **ddydd Gwener 5 Medi 2025** ac yn gorffen **ddydd Gwener 17 Hydref 2025.**

Rhaid dychwelyd ffurflen ymateb (Atodiad A) at sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethol erbyn **23:59pm ddydd Gwener 17 Hydref 2025** naill ai gan Ysgol Gymunedol Trimsaran (drwy'r post neu e-bost admin@trimsaran.ysgolccc.cymru) ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes (drwy'r post neu e-bost admin@furnace.ysgolccc.cymru).

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd copi o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael i'r holl rieni/gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol, a bydd copïau caled ar gael ym mhob ysgol. Bydd copi electronig ar gael ar y wefan, ac mae fersiwn electronig wedi'i hanfon at rieni/gofalwyr.

Bydd llais y disgyblion yn rhan o'r ymgynghoriad. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i Gyngor Ysgol y ddwy ysgol **ddydd Mercher 24 Medi 2025** i drafod yr ymgynghoriad a'u barn ar ffedereiddio. Mae fersiwn sy'n addas i blant o'r ddogfen ymgynghori hon hefyd ar gael ar wefannau'r ysgolion (Trimsaran | Ffwrnes) a chopïau caled ar gael o swyddfa'r ysgolion.

Mae cyfarfodydd ymgynghori wedi'u trefnu ar gyfer rhieni/gofalwyr ar y dyddiadau canlynol:

- **Ysgol Gymunedol Trimsaran** – **Dydd Llun, 15 Medi am 3:30pm** yn Neuadd yr Ysgol
- **Ysgol Gymraeg Ffwrnes – Dydd Llun 8 Medi, dydd Mawrth 9 Medi a dydd Mercher 10 Medi am 3:30pm** yn Neuadd yr Ysgol.

Mae cyfarfodydd ymgynghori wedi'u trefnu ar gyfer Staff yr Ysgolion ar y dyddiadau canlynol:

- **Ysgol Gymunedol Trimsaran – 1 Medi 2025 (Hyfforddiant mewn Swydd)** yn Neuadd yr Ysgol
- **Ysgol Gymraeg Ffwrnes – 1 Medi 2025 (Hyfforddiant mewn Swydd**) yn Neuadd yr Ysgol

Mae croeso i chi ymuno â ni ynghyd â swyddogion awdurdodau lleol i drafod y cynnig i ffedereiddio.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| Llofnod: ______________ | Llofnod: ______________ |
| Y Cynghorydd Kim Broom<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr,<br>Ysgol Gymunedol Trimsaran | Mrs Sarah Owens<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr,<br>Ysgol Gymraeg Ffwrnes |
| Dyddiad: 04.06.2025 | Dyddiad: 04.06.2025 |

## 2. Y Cynnig

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnig a wnaed gan gyrff llywodraethu Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes, sef bod y ddwy ysgol yn sefydlu Ffederasiwn yn unol â'r pwerau a roddwyd iddynt gan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014. Pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno, byddai 'Ffederasiwn Ysgolion Trimsaran a Ffwrnes' yn cael ei sefydlu o 5 Ionawr 2026.

Mae'r term "ffedereiddio" yn disgrifio cytundeb cyfreithiol a ffurfiol sy'n golygu bod nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu. Mae'r elfennau allweddol fel a ganlyn:

- Mae pob ysgol yn cadw ei henw, categori, cyllideb a staff ac mae'n parhau i fod yn rhan o'i chymuned ei hun;
- Cynigir y bydd un Pennaeth Gweithredol, sef Pennaeth presennol Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes, yn arwain y Ffederasiwn;
- Bydd arolygiadau Estyn yn cael eu cydlynu i ddigwydd yr un pryd ar gyfer pob ysgol yn y Ffederasiwn, er mwyn lleihau'r ymyrraeth a'r straen. Fodd bynnag, bydd pob ysgol yn derbyn adroddiad arolygu ar wahân yn dilyn yr arolygiad;
- Bydd corff llywodraethu'r Ffederasiwn yn gallu defnyddio ei gyllideb a'i adnoddau ar draws y Ffederasiwn i wella deilliannau addysgol i bob disgybl.
- Rhaid cynnal llwybr archwilio a chynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer pob ysgol yn y Ffederasiwn.
- Ni all corff llywodraethu'r Ffederasiwn ei gwneud yn ofynnol i staff presennol weithio ar draws pob ysgol yn y Ffederasiwn. Fodd bynnag, efallai y bydd aelodau staff newydd yn cael eu penodi i weithio ar draws yr ysgolion yn y Ffederasiwn;
- Bydd un corff llywodraethu yn cael ei sefydlu i oruchwylio cyfeiriad strategol yr ysgolion o fewn y Ffederasiwn. Bydd y corff hwn yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol presennol;
- Rhaid i aelodaeth corff llywodraethu'r Ffederasiwn gynnwys o leiaf 15, a dim mwy na 27, o lywodraethwyr;
- Os gwneir y penderfyniad i sefydlu Ffederasiwn Ysgolion yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd corff llywodraethu unigol pob ysgol yn cael ei ddiddymu, a bydd un corff llywodraethu (y "Corff Llywodraethu Ffederal") yn cymryd eu lle. Rhaid i'r corff llywodraethu newydd gael enw newydd. Enw'r Corff Llywodraethu Ffederal fydd 'Corff Llywodraethu Ffederal Ysgolion Trimsaran a Ffwrnes'.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r cynnig, ac mae Corff Llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno'n ffurfiol i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad.

**3. Y Cefndir a'r Sbardunau ar gyfer Newid**

Yn genedlaethol, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ymroddedig i'r agenda gydweithio, gan ei bod yn cynnig posibiliadau ar gyfer gwella perfformiad ysgolion a chodi safonau cyrhaeddiad trwy alluogi ysgolion i ddatblygu a rhannu arfer da, yn ogystal â chyrchu a rhannu adnoddau. Mantais allweddol arall yw bod y dull hwn yn darparu mwy o sefydlogrwydd i ysgolion trwy ddefnyddio'r arbedion effeithlonrwydd o adnoddau a rennir i greu darpariaeth fwy effeithiol, gan sicrhau bod ysgolion yn parhau i wasanaethu eu disgyblion a'u rhieni yn eu cymunedau.

Gweledigaeth y Gweinidog yw i gymaint o ysgolion â phosibl elwa o'r cyfleoedd a'r manteision y mae cydweithio yn eu cynnig.

Yn lleol, mae traddodiad o gydweithio rhwng y ddwy ysgol. Mae potensial hefyd i gryfhau gwytnwch o ran trefniadaeth ac arweinyddiaeth o fewn system ysgolion cynradd yr ardal.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn rhannu pennaeth, trefniant sydd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2020. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r model arweinyddiaeth hwn wedi profi'n effeithiol, gan feithrin cydweithio agosach, arferion gorau a rennir, a chyfeiriad strategol mwy cydlynol ar draws y ddwy ysgol. O ganlyniad i'r profiad cadarnhaol hwn, mae Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol bellach yn credu bod yr amser yn iawn i ystyried ffurfioli'r trefniant hwn i ddarparu mwy o sefydlogrwydd hirdymor o safbwynt arweinyddiaeth a llywodraethu.


Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda Chyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael. Trwy'r trafodaethau hyn, mae wedi dod yn amlwg bod cefnogaeth gref i symud tuag at strwythur mwy parhaol. Mae'r Cyrff Llywodraethu yn cytuno bod hwn yn gyfle amserol i adeiladu ar y cydweithio llwyddiannus hyd yma ac i ystyried a allai ffurfioli'r bartneriaeth arwain at well cyfleoedd a chanlyniadau i ddysgwyr. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cefnogi'r trywydd hwn, ac mae'r ddau Gorff Llywodraethu wedi cytuno'n ffurfiol i symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus.

O ganlyniad, rydym wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad i gasglu barn rhieni, staff, ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn ein cymunedau ynglŷn â'r cynnig.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn darparu gwybodaeth am y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â sefydlu Ffederasiwn.

**4. Trosolwg o Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes**

Mae Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes tua 3.7 milltir oddi wrth ei gilydd, ac mae'r ddwy ysgol wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin. (Gweler Ffigur 1 isod).




***Mewnosod Ffigur 1: Map yn dangos lleoliad y ddwy ysgol***

Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cydweithio mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys:

- Rhannu pennaeth
- Diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd ar y Cyd
- Hyfforddiant ar y cyd i staff, gan gynnwys cynllunio cwricwlwm, cynllunio pynciau, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a rhannu a datblygu polisïau ac arferion gorau.
- Gweithgareddau disgyblion wedi'u trefnu ar y cyd, gan rannu costau trafnidiaeth
- Gweithredu'r model addysg Triad o ddatblygiad proffesiynol, sy'n hwyluso/annog staff i weithio ar y cyd mewn grwpiau i wella a chefnogi eu harferion addysgu.

Mae'r dull cydweithredol hwn eisoes wedi cael effaith gadarnhaol, gan gryfhau datblygiad staff, cynyddu cysondeb mewn addysgu a dysgu, gwella effeithlonrwydd o ran cost, a gwella'r profiad addysgol cyffredinol i ddysgwyr.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ystadegau a gwybodaeth allweddol ar gyfer pob ysgol:

| Ysgol | Ysgol Gymunedol Trimsaran | Ysgol Gymraeg Ffwrnes |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad** | Heol Waunyclun Trimsaran, SA17 4BE | Rhodfa Denham, Llanelli SA15 4DD |
| **Ystod Oedran** | 3 - 11 | 3 – 11 |
| **Categori Ysgol** | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol |
| **Cyfrwng Iaith** | Cymraeg | Cymraeg |
| **Nifer y Disgyblion** | 195 | 480 |
| **Cyfanswm Capasiti Disgyblion yr Ysgol** | 240 | 480 |
| **Prydau Ysgol am Ddim** | 40.9% | 7% |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | 5% | 1% |
| **Presenoldeb 2024-25** | 90.82% | 93.32% |
| **Staffio** | 21 | 50 |
| **Maint dosbarthiadau** | Tua 24.4 o ddisgyblion / dosbarth | Tua 30 o ddisgyblion / dosbarth |
| **Cyfanswm y Gyllideb 2025-26** | £1,041,243 cyllideb dros ben (Mawrth 2025) | £2,049,009.00 cyllideb dros ben (Mawrth 2025) |
| **Cyflwr yr Adeilad** | Agorwyd adeilad newydd ym mis Medi 2017 | Agorwyd adeilad newydd ym mis Rhagfyr 2014 |
| **Estyn** | Dyddiad yr Arolygiad diwethaf Chwefror 2025 Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad *(Mae copïau caled ar gael o swyddfa'r ysgol)* | Dyddiad yr Arolygiad diwethaf Mai 2017 Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad *(Mae copïau caled ar gael o swyddfa'r ysgol)* |

***Tabl 1: Gwybodaeth Gyd-destunol ar gyfer y Ddwy Ysgol***

### 4.1. Ysgol Gymunedol Trimsaran

I gael rhagor o wybodaeth am Ysgol Gymunedol Trimsaran, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol drwy ffonio 01554 810670 i weld ei hadroddiad blynyddol.

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am yr ysgol drwy'r dolenni canlynol:

- Gwefan yr Ysgol: Ysgol Gymunedol Trimsaran
- Gwybodaeth am y Cyngor: Trimsaran - Cyngor Sir Caerfyrddin
- Adroddiad Estyn: Ysgol Gymunedol Trimsaran - Estyn

### 4.2. Ysgol Gymraeg Ffwrnes

I gael rhagor o wybodaeth am Ysgol Gymraeg Ffwrnes, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol drwy ffonio 01554 758589 i weld ei hadroddiad blynyddol.

Hefyd gallwch weld gwybodaeth berthnasol am yr ysgol drwy'r dolenni canlynol:

- Gwefan yr Ysgol: [Ysgol Gymraeg Ffwrnes]
- Gwybodaeth am y Cyngor: [Ffwrnes - Cyngor Sir Caerfyrddin]
- Adroddiad Estyn: [Ysgol Gymraeg Ffwrnes - Estyn]

## 5. Y Manteision a'r Heriau sy'n Gysylltiedig â Gweithio mewn Ffederasiwn

Manteision

Trwy lunio Ffederasiwn, byddai'r ysgolion yn parhau i weithio gyda'i gilydd er budd yr holl ddisgyblion yn yr ardal leol. Bydd trefniant ffurfiol lle bydd yr ysgolion yn rhannu corff llywodraethu sengl. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt eu dyraniadau cyllidebol a'u hadroddiadau arolygu Estyn eu hunain. Bydd y strwythur cydlywodraethu yn caniatáu i'r ysgolion:

- Parhau i weithio gyda'i gilydd yn effeithlon ac yn gynaliadwy i godi safonau, gwella gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion a staff; ac
- Rhannu adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau.
- Ffurfioli'r trefniadau presennol sydd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2020.
- Gan adeiladu ar lwyddiannau, bydd y Ffederasiwn yn:
  - Datblygu ffocws cryf a chyson ar godi safonau a gwella perfformiad ysgol.
  - Sicrhau datblygiad a chefnogaeth ddigonol gan lywodraethwyr.
  - Creu cyfleoedd i ymestyn y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.
  - Rhannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau. Meddu ar ddiwylliant o ddysgu rhwydweithiol.
  - Arweinyddiaeth wasgaredig.
  - Rhannu llety, cyfleusterau ac offer.
  - Osgoi dyblygu.
  - Cyflawni arbedion maint.
  - Meithrin gallu.
  - Meddu ar bolisïau sengl.

Nid yw ffederasiynau'n dod ag arbedion ariannol sylweddol i'r Awdurdod Lleol, ond gallant leddfu pwysau ariannol yn yr ysgolion oherwydd bod modd rhannu a defnyddio adnoddau ar draws y Ffederasiwn.

Mae cael Corff Llywodraethu Ffederal strategol sengl yn golygu bod yr ysgolion yn gallu cydweithio'n ffurfiol i wella cyfleoedd i ddisgyblion. Bydd hyn yn gwella arferion presennol sydd wedi arwain at:

- Profiadau cymdeithasol a dysgu ehangach ar gyfer disgyblion;
- Gwella parhad y ddarpariaeth o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd addysg gynradd;
- Arweinyddiaeth gref gan ddefnyddio strwythurau rheoli ac arwain mwy strategol, gan ganiatáu i arweinwyr ysgol ganolbwyntio ar addysgu, dysgu a chodi safonau;

- Cyfleoedd i ddatblygu arweinwyr y dyfodol;
- Cwricwlwm cyson a chydlynol, gan wella'r cyfle i fodloni anghenion disgyblion unigol, ymestyn hawliau o ran y cwricwlwm a chreu'r potensial i rannu adnoddau;
- Cynllun Datblygu Ffederasiwn sengl a pholisïau ysgol sengl, gan leihau dyblygu;
- Mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau, yn enwedig o ran y celfyddydau, cerddoriaeth a chwaraeon;

Byddai Ffederasiwn yn galluogi pob ysgol i gadw ei chymeriad unigol ei hun o fewn partneriaeth drosfwaol gref a bydd pob ysgol yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd. Bydd cyfle inni barhau i gydweithio ac i lunio ein Ffederasiwn, fel ei fod yn gallu diwallu anghenion y disgyblion a'r cymunedau.

**5.1 Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â Ffedereiddio?**

Mae rhai o'r heriau o ran symud ymlaen i sefydlu Ffederasiwn fel a ganlyn:

- Meithrin ymddiriedaeth rhwng llywodraethwyr a chymunedau ysgol;
- Angen sicrhau ymrwymiad llwyr gan bob ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn;
- Angen datblygu a chytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol;
- Angen sicrhau strwythurau arwain a llywodraethu clir;
- Angen sicrhau digon o amser i bob parti deimlo'n esmwyth ynghylch y newidiadau a gynigir;
- Dylai'r holl bartneriaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi;
- Cynnydd yn llwyth gwaith y llywodraethwyr, yn enwedig ar ddechrau'r broses ffedereiddio ac yn ystod y flwyddyn gyntaf;
- Posibilrwydd o golli llywodraethwyr profiadol;
- Materion gweithredol – cynnydd o ran llwyth gwaith i bennaeth unigol;

Er mwyn goresgyn yr heriau o ffurfio Ffederasiwn, mae'n hanfodol blaenoriaethu cyfathrebu agored ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i feithrin ymddiriedaeth a sicrhau ymrwymiad llawn gan bob ysgol. Bydd datblygu gweledigaeth a rennir trwy gynllunio cydweithredol, a sefydlu strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth clir, yn darparu cyfeiriad ac eglurder. Rhaid caniatáu digon o amser ar gyfer addasu, gyda phob partner yn teimlo'n gyfartal trwy wneud penderfyniadau cynhwysol. Er mwyn rheoli llwyth gwaith cynyddol, yn enwedig ar gyfer llywodraethwyr a'r pennaeth, dylid ystyried cefnogaeth wedi'i dargedu, gweithredu fesul cam, a dosbarthu rôl. Yn olaf, gall cynllunio a mentora olyniaeth helpu i gadw profiad gwerthfawr a sicrhau parhad trwy gydol y trawsnewid.

Er mwyn i Ffederasiwn lwyddo, mae'n rhaid meithrin ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr â chymunedau ysgol unigol. Mae gofyn cael ymrwymiad llwyr gan bob ysgol hefyd, a gweledigaeth a rennir ar gyfer datblygu'r Ffederasiwn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn, mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i weithio ar y cyd, meithrin cyd-ymddiriedaeth, a chynnal

cyfathrebu agored trwy gydol y broses. Mae hefyd yn gofyn am ymrwymiad llawn gan yr ysgolion dan sylw a gweledigaeth a rennir ar gyfer datblygu'r Ffederasiwn. Mae'r ysgol eisoes wedi bod yn gweithio mewn Ffederasiwn anffurfiol ers mis Ionawr 2020 ac felly mae'r mwyafrif o'r materion hyn eisoes wedi'u datrys.

**6. Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu**

Yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014, ar ôl sefydlu'r Ffederasiwn, byddai cyrff llywodraethu presennol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu sy'n gyfrifol am lywodraethu'r ddwy ysgol ffederal (gweler Rheoliad 25).

Mae’r rheoliadau’n pennu y dylai pob corff llywodraethu ffederal gynnwys isafswm o 15 llywodraethwr ac uchafswm o 27, a chynigir y cyfansoddiad canlynol ar gyfer pob ysgol sydd wedi'i ffedereiddio:

- ethol neu benodi o leiaf un rhiant-lywodraethwr, ond dim mwy na dau, o bob ysgol yn y Ffederasiwn, i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion cofrestredig;
- o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr;
- o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr;
- o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr Awdurdod Lleol;
- o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol;
- pennaeth neu bennaeth dros dro y Ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth dros dro pob ysgol yn y Ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr.

Ar gyfer unrhyw ysgol gynradd neu ysgol feithrin mewn Ffederasiwn a leolir mewn ardal cyngor cymuned, rhaid i'r corff llywodraethu gynnwys un llywodraethwr cymunedol ychwanegol hefyd, a enwebwyd gan y Cyngor/Cynghorau Cymuned, yn ychwanegol at y llywodraethwyr a restrir uchod.

Cynigir bod cyfansoddiad corff llywodraethu sengl Ffederal fel yr amlinellir yn y tabl drosodd:

| Math o Lywodraethwr | Strwythur Corff Llywodraethu Cyfredol | | | Corff Llywodraethu Ffederal Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Gymunedol Trimsaran | Ysgol Gymraeg Ffwrnes | Cyfanswm | |
| **Athrawon-lywodraethwyr** | 1 | 1 | 2 | **2** |
| **Staff-lywodraethwyr** | 1 | 1 | 2 | **2** |
| **Llywodraethwyr Awdurdod Lleol** | 3 | 3 (1 lle gwag) | 6 (1 lle gwag) | **4** |
| **Llywodraethwyr Cymunedol** | 3 | 3 (1 lle gwag) | 6 (1 lle gwag) | **4** |
| **Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol (cynrychiolydd Cyngor Cymuned)** | 1 | 1 | 2 | **1** |
| **Rhiant-lywodraethwyr** | 4 | 4 | 8 | **4** |
| **Pennaeth** | 1 | | 1 | **1** |
| **Cyfanswm** | **14** | **14 (2 le gwag)** | **28 (2 le gwag)** | **18** |

***Tabl 2; Cyfansoddiad arfaethedig y Corff Llywodraethu***

## 7. Strwythur Arweinyddiaeth a Staffio

Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn rhannu pennaeth.

Pe bai'r cynnig i ffedereiddio yn cael ei weithredu, bydd yr ysgolion yn cael eu rheoli ar y cyd gan un Pennaeth Gweithredol.

Bydd Corff Llywodraethu'r Ffederasiwn yn darparu arweinyddiaeth strategol, gan oruchwylio datblygiad ysgolion, deilliannau dysgwyr, a rheoli perfformiad y Pennaeth Gweithredol. Bydd y Pennaeth Gweithredol yn cadw cyfrifoldeb am arweinyddiaeth o ddydd i ddydd y ddwy ysgol, gyda chefnogaeth y timau arweinyddiaeth presennol.

Ar hyn o bryd, mae pob ysgol yn cynnal ei strwythur staffio ei hun gyda staff wedi'u contractio i weithio yn eu hysgol benodol. Nid oes unrhyw gynlluniau ar unwaith i newid y strwythurau staffio presennol. Pe bai anghenion gweithredol yn y dyfodol yn arwain at gynigion ar gyfer mwy o hyblygrwydd staff, byddai hyn yn destun ymgynghori â staff ac undebau llafur perthnasol, yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth ac arfer da.

Ar gyfer penodiadau newydd a wneir ar ôl sefydlu'r Ffederasiwn, rhagwelir y bydd angen i staff weithio'n hyblyg ar draws y ddau safle lle bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn cael ei nodi'n glir yn ystod y broses recriwtio.

**8. Y Broses Ffedereiddio**

Mae'r broses hon wedi'i chynllunio i gydymffurfio'n llawn â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru: *Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (2023)*.

| Cam | Cam (Canllawiau 2023) | Cam Gweithredu | Dyddiad Arfaethedig/Diweddarwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Archwilio | Ystyriaeth Gychwynnol: Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol yn trafod ac yn cytuno i edrych ar ffedereiddio. | **Hydref 2024** |
| 2 | Paratoi | Mae cyrff llywodraethu yn penderfynu'n ffurfiol ymgynghori ar gynnig i ffedereiddio.<br>Paratoi adroddiad ymgynghori i gael barn rhanddeiliaid. | **08/04/2025 – 05/09/2025** |
| 3 | Yr adroddiad a chael barn | Cyhoeddi dogfen ymgynghori statudol; cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid (staff, rhieni, ac ati). | **05/09/2025 – 17/10/2025** |
| 4 | Diffinio | Paratoi disgrifiad swydd/contractau newydd ar gyfer unrhyw benodiadau staff newydd. | **Medi 2025** |
| 5 | Gweithredu ar ôl cael barn rhanddeiliaid | Cyrff llywodraethu yn cyfarfod i adolygu ymatebion ymgynghori a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen.<br>Yn dibynnu ar ganlyniad Cam 4: Cyhoeddi cynnig ffedereiddio terfynol a rhoi gwybod i randdeiliaid. | **21/10/2025** (Trimsaran)<br>**04/11/2025** (Ffwrnes)<br><br>**12/11/2025** |
| 6 | Gweithredu | Os caiff ei gymeradwyo, diddymu cyrff llywodraethu presennol a sefydlu corff llywodraethu ffederal newydd. | **Targed:**<br>**5 Ionawr 2026** |
| 7 | Datblygiad | Mae angen i'r Corff Llywodraethu Sengl ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. | **14/01/2026** |
| 8 | Ymgorffori | Llywodraethwyr yn cytuno ar strwythurau pwyllgorau a chalendr cyfarfodydd.<br>Penodi staff newydd ar draws y Ffederasiwn. | **14/01/2026** |
| 9 | Datblygu Strategol | Model ymarfer, prosesau, Polisïau a dogfennaeth ar waith. | **Gwanwyn 2026** |

Mae'r broses ffedereiddio a amlinellir uchod yn unol ag Adran 4 o Ganllawiau Statudol Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir Llywodraeth Cymru (2023) ac mae'n cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol a amlinellir yn *Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014*. Cliciwch yma i ddarllen canllawiau Llywodraeth Cymru yn llawn.

**9. Derbyniadau**

Nid oes unrhyw newidiadau i'r broses dderbyn ar gyfer y naill ysgol neu'r llall o ganlyniad i'r cynnig i ffedereiddio. Bydd pob ysgol o fewn y Ffederasiwn yn parhau i gael ei thrin fel endid ar wahân at ddibenion derbyniadau.

Bydd **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn parhau i fod yn Awdurdod Derbyn ar gyfer y ddwy ysgol, ac yn gyfrifol am bennu a gweinyddu'r polisïau derbyn.

Bydd rhieni a gofalwyr yn parhau i wneud cais am yr ysgol unigol o'u dewis, a bydd **meini prawf gor-alw** presennol pob ysgol yn parhau i fod yn berthnasol yn annibynnol. **Nid** yw derbyn i un ysgol yn y Ffederasiwn yn rhoi unrhyw flaenoriaeth na hawl awtomatig i dderbyn i'r llall.

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais am le ysgol, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin:

[Derbyn i Ysgolion a Newid Ysgolion - Cyngor Sir Caerfyrddin]

**10. Ymgynghoriad**

Yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 a Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2023), mae'n ofyniad statudol ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol ar unrhyw gynnig i ffedereiddio ysgolion a gynhelir, boed hynny'n cael ei gychwyn gan y cyrff llywodraethu neu'r awdurdod lleol.

Mae'r cynnig hwn i ffedereiddio yn cael ei gyflwyno gan gyrff llywodraethu Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes. Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn rhedeg o 05/09/2025 i 17/10/2025, lle gwahoddir yr holl randdeiliaid i roi eu barn. Bydd yr ymgynghoriad yn para am o leiaf chwe wythnos ysgol, fel sy'n ofynnol gan Reoliad 6 o Reoliadau 2014.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cefndir, rhesymeg a goblygiadau disgwyliedig ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes. Bwriedir ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin sy'n ymwneud â'r cynnig a llywio eich ymateb. Mae adran 12.2 yn cynnwys set ddefnyddiol o Gwestiynau Cyffredin a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phryderon cyffredinol am ffedereiddio ysgolion ledled Cymru.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn unol â gofynion statudol, mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i dosbarthu i'r rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni a gwarcheidwaid disgyblion yn y ddwy ysgol
- Aelodau o gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol
- Holl staff yn y ddwy ysgol
- Cynghorau ysgol y ddwy ysgol
- Cyngor Sir Caerfyrddin (fel yr Awdurdod Lleol)
- Cyngor Cymuned Trimsaran
- Cyngor Gwledig Llanelli
- Pennaeth Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes
- Yr holl undebau llafur cydnabyddedig perthnasol

**Gwybodaeth Gyswllt a Manylion Pellach**

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch ag un o Gadeiryddion y Cyrff Llywodraethu gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Manylion Cyswllt**

| **Cadeirydd y Corff Llywodraethu** | **Ysgol Gymunedol Trimsaran** | **Ysgol Gymraeg Y Ffwrnes** |
|---|---|---|
| **Enw Cyswllt** | Y Cynghorydd Kim Broom | Mrs Sarah Owens |
| **Rhif Ffôn Cyswllt** | 01554 810670 | 01554 758589 |
| **Cyfeiriad Post (drwy'r ysgolion)** | Heol Waunyclun Trimsaran, SA17 4BE | Rhodfa Denham, Llanelli SA15 4DD |
| **Cyfeiriad E-bost (drwy Glerc y Corff Llywodraethu)** | admin@trimsaran.ysgolccc.gov.uk | admin@furnace.ysgolccc.gov.uk |

*Tabl 3: Manylion Cyswllt*

Amgaeir ffurflen ymateb hefyd ar ffurf copi caled ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir dychwelyd y ffurflen hon naill ai drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau a restrir uchod.

Mae fersiwn o'r ddogfen ymgynghori hon wedi cael ei llunio yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt. Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu a'i chyflwyno mewn ffordd sy'n helpu plant a phobl ifanc i ddeall y broses ymgynghori a chymryd rhan ynddi.

Hefyd bydd cyfle i'r holl blant a phobl ifanc ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc.


Bydd digwyddiad ymgynghori yn cael ei drefnu i blant a phobl ifanc gydag aelodau o gynghorau ysgol o Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes ddydd Mercher, 24 Medi 2025.

Bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei baratoi ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Bydd yr adroddiad ymgynghori yn cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad;
- Barn a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt (i gael ei hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a bod yn hygyrch iddynt).
- Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar wefannau'r ysgolion (Trimsaran | Ffwrnes).

Yn ogystal, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n ystyried yr effaith ar grwpiau o bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, wedi'i baratoi ac mae ar gael ar wefannau'r ysgolion. Mae copïau caled ar gael o swyddfeydd yr ysgol ar gais.

## 10.1. Amserlen Arfaethedig



**11. Casgliad**

Rhaid i bartneriaeth Ffederasiwn lwyddiannus gael ei seilio ar ymrwymiad i gydweithio fel grŵp o ysgolion a pharodrwydd i fynd i'r afael â phethau'n wahanol er mwyn gwella budd, lles a chyflawniad cyffredinol pob disgybl.

Bydd datblygiad y ddwy ysgol a'u cymunedau mewn Ffederasiwn, a rhannu'r arfer gorau oll, yn helpu i sicrhau bod safonau'n codi a pherfformiad yn gwella.

Mae sefydlu a datblygu Ffederasiwn yn galw am lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng llywodraethwyr, ysgolion a'u cymunedau. Rhaid i ysgolion hefyd fod yn barod i gydnabod potensial a manteision partneriaeth ffurfiol a deall a chydnabod bod y bartneriaeth yn cryfhau yn hytrach na bygwth nodweddion a rhinweddau unigryw'r ysgol(ion) unigol o fewn y Ffederasiwn.

Rydym ni, y llofnodwyr isod, yn cyflwyno'r cynnig hwn i'ch ystyriaeth.

**Llofnodwyd:** ____________________________ **Dyddiad:** 04.06.2025

Y Cynghorydd Kim Broom

Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gymunedol Trimsaran

**Llofnodwyd:** ____________________________ **Dyddiad:** 04.06.2025

Mrs Sarah Owens

Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gymraeg Ffwrnes

## 12. Atodiadau

### 12.1. Atodiad A - Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad ynghylch ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn unol â Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014, yn dechrau ar 05/09/2025 ac yn dod i ben ar 17/10/2025.

**Cynnig i Ffedereiddio** Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes **05/01/2026.**

**Cyn i chi ddechrau** – Os byddai'n well gennych lenwi'r ffurflen hon ar-lein, ewch i: https://forms.office.com/e/bWKqgCtR6x

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsoch yn y ddogfen ymgynghori hon, yn y digwyddiad ymgynghori, a thrwy ddogfennau eraill sydd ar gael, rydym yn eich gwahodd i roi eich barn ar y cynnig i ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes.

1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ffedereiddio Ysgol Gymunedol Trimsaran ac Ysgol Gymraeg Ffwrnes erbyn 05/01/2026?
   ☐ Ie ☐ Na

2. Nodwch a ydych chi'n ymateb fel:
   ☐ Disgybl yn Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Disgybl yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Rhiant/gofalwr disgybl yn Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Rhiant/gofalwr disgybl yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Athro yn Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Athro yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Aelod o staff cymorth yn Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Aelod o staff cymorth yn Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Aelod o gymuned Ysgol Gymunedol Trimsaran
   ☐ Aelod o gymuned Ysgol Gymraeg Ffwrnes
   ☐ Arall (rhowch fanylion): ____________________________________________

3. Rhowch wybod inni a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer darpariaeth addysg gynaliadwy yn yr ardal?

| |
|---|
| |

4. Nodwch eich sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r cynnig. Dywedwch wrthym pam yr ydych yn teimlo felly.

5. A hoffech inni gydnabod bod eich ymateb wedi dod i law? ☐ Ie ☐ Na

6. Os ydych wedi ateb 'ie' i'r cwestiynau uchod, nodwch gyfeiriad e-bost. Os nad ydych yn rhoi cyfeiriad e-bost, ni allwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

## 12.2. Atodiad B - Cwestiynau ac Atebion Cychwynnol

**C1.** A fydd pob ysgol yn cadw ei phennaeth?

**A** Petai'r Ffederasiwn yn cael ei sefydlu, byddai disgwyl cael un pennaeth (cyfeirir ato'n aml fel "Pennaeth Gweithredol") ar gyfer yr ysgolion.

**C2.** Sut fydd derbyn i ysgolion yn gweithio?

**A** Ni fyddai hyn yn effeithio ar y broses dderbyn – byddai rhieni yn parhau i wneud cais i bob ysgol ar wahân a byddai'r awdurdod lleol yn parhau i benderfynu ar dderbyniadau.

**C3.** A fydd disgyblion yn gorfod teithio i ysgolion gwahanol yn ystod y diwrnod ysgol?

**A** Na. Bydd disgyblion yn aros yn eu hysgolion eu hun drwy gydol y diwrnod ysgol arferol. Fodd bynnag, ar rai adegau bydd disgyblion yn gallu ymweld ag ysgol arall yn y Ffederasiwn ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol penodol.

**C4.** A fydd pob ysgol yn cadw ei henw, ei gwisg a'i logo ysgol ei hun?

**A** Bydd pob ysgol yn cadw ei gwisg, ei henw a'i logo ysgol ei hun i adlewyrchu ei chymeriad a'i hethos unigol.

**C5.** Beth mae'n ei olygu i staff?

**A** Yn y Ffederasiwn, byddai'r holl staff addysgu a staff cymorth addysgu presennol yn cael eu cyflogi ar yr un amodau gwasanaeth ag y maen nhw ar hyn o bryd, a chan yr un cyflogwr, sef Cyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, gall y corff llywodraethu ffederal benderfynu penodi unrhyw staff newydd i weithio yn holl ysgolion y Ffederasiwn, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu contract cyflogaeth.

**C6.** Beth yw Ffederasiwn?

**A** Strwythur llywodraethu cyfreithiol yw Ffederasiwn ffurfiol, sy'n galluogi rhwng dwy a chwech o ysgolion i rannu un corff llywodraethu sengl.

**C7.** Pam ffedereiddio – oni ellir cyflawni'r manteision drwy gydweithio anffurfiol?

**A** Mae strwythur Ffederasiwn ffurfiol yn warant y bydd y bartneriaeth yn un barhaol a chynaliadwy. Bydd gan Gorff Llywodraethu sengl y pwerau angenrheidiol i gyfarwyddo'r addysgu a'r dysgu sy'n digwydd ym mhob ysgol yn y Ffederasiwn, ac i fod yn atebol am hynny. Mae hefyd yn gallu cyfarwyddo sut y caiff y gyllideb ei gwario a sut y caiff adnoddau eu dyrannu, a bod yn atebol am hynny. Nid yw'r strwythur sengl hwn o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn bodoli o fewn cydweithio anffurfiol ac felly ni fyddai'n gallu cael effaith mor sylweddol.

**C8.** Pam Ffedereiddio – beth yw'r manteision ar gyfer disgyblion?

**A** Mae Ffederasiwn ffurfiol yn gallu darparu llawer o fanteision:-

- Parhau i gael mynediad i addysgu arbenigol, chwaraeon tîm ac arbenigedd cwricwlaidd ehangach.
- Parhau i rannu arferion gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau
- Parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol arbennig ar gyfer disgyblion
- Parhau i ddatblygu, rhannu a meithrin gwybodaeth a sgiliau
- Mae ysgolion sy'n llunio cytundeb ffedereiddio yn aros yn y cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol
- Ychwanegu at fudd cyffredinol, llesiant a chyflawniad pob un o'r disgyblion

**C9.** Pam Ffedereiddio – beth yw'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu Ffederasiwn?

**A** Mae bod yn rhan o Ffederasiwn yn cynnig nifer o fanteision i ysgolion gan gynnwys profiadau dysgu a chymdeithasol ehangach i blant sy'n arwain at wella perfformiad disgyblion. Mae ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arferion gorau, cyfleusterau ac arbenigedd. Gellir rhoi mwy o bwyslais ar strwythurau rheoli ac arwain strategol a bydd staff yn cael cyfleoedd newydd i gydweithio. Gellir osgoi dyblygu ymdrech ac mae cyfle i hyrwyddo gwell arbedion maint.

Nodir isod rai heriau/risgiau posibl wrth sefydlu Ffederasiwn:

- Angen meithrin ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr a'r cymunedau ysgol
- Sicrhau y ceir ymrwymiad llwyr gan y ddwy ysgol yn y Ffederasiwn
- Angen gweithredu a datblygu'r cynlluniau a'r weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol
- Mae strwythurau arwain clir yn hanfodol
- Angen sicrhau digon o amser i bob aelod deimlo'n esmwyth ynghylch y newidiadau a gynigir

Efallai y bydd materion sy'n ymwneud â chydberthnasau ac ymddiriedaeth i lywodraethwyr, penaethiaid a staff sy'n gweithio rhwng ysgolion. Dylai'r corff llywodraethu ffederal fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl a llunio strategaethau a mesurau gweithredu i reoli'r risgiau.

**C10.** Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod Ffederasiynau yn llwyddiannus?

**A** Yn nogfen Llywodraeth Cymru, Canllawiau i Ffederasiynau, mae nifer o astudiaethau achos sy'n amlinellu sut y mae'r ysgolion hynny wedi elwa ar ffedereiddio.

Dywed yr adroddiad "Ym mhob Ffederasiwn yr ymwelwyd ag ef roedd gwelliant i'w weld o ran darpariaeth a deilliannau. Ym mhob achos, roedd y ffaith fod yr ysgolion wedi ffedereiddio'n ffactor a oedd yn cyfrannu at y gwelliant.'

**C11.** A ellir cyfyngu ar Ffederasiwn o ran amser?

**A** Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i ysgolion unigol adael Ffederasiwn, ac yn darparu ar gyfer diddymu Ffederasiwn. Bydd y prosesau hyn yn galw am weithdrefnau manwl a chanllawiau penodol. Fodd bynnag, ystyrir Ffedereiddio yn ymrwymiad hirdymor. Ni ddylid ei ystyried yn ateb cyflym. Bydd y cyrff llywodraethu priodol wedi ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu Ffederasiwn o ran yr effaith ar gyflawniadau disgyblion. Byddai Ffederasiwn yn sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad yr ysgolion. Cynlluniau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir fyddai cynlluniau o'r fath.

**C12.** Beth sy'n digwydd i gyllideb yr ysgol?

**A** Mae pob ysgol mewn Ffederasiwn yn parhau i fod yn sefydliad ar wahân yn gyfreithiol ac yn cadw ei chyllideb ysgol unigol. Er bod pob ysgol yn derbyn ei chyllideb ar wahân ei hun ac yn gorfod bod yn atebol amdani, o dan drefniant Ffederasiwn gallant "gyfuno" cyllidebau.

Mae Ffedereiddio'n gweithio ar y sail bod gan bob ysgol ei chryfderau a'i manteision penodol ei hun, pa un a yw hynny'n gyfleusterau, staff neu adnoddau, ac yn caniatáu cynllunio strategol ac ariannol gwell a mwy cydlynol. Gallai Ffederasiynau ddefnyddio eu grym prynu mwy o'r cyllidebau cyfun.

**C13.** Pwy fyddai'n penderfynu ar raniad y gyllideb rhwng ysgolion?

**A** Byddai'r Cyngor yn cytuno ar y gyllideb ddirprwyedig ar gyfer yr ysgolion ond gallai'r Corff Llywodraethu Ffederal gytuno i gyfuno'r gyllideb.

**C14.** Beth sy'n digwydd os yw un ysgol mewn diffyg ariannol ac un arall â gwarged ariannol? Pwy fyddai'n gyfrifol am ddelio â hynny?

**A** Byddai gan y Corff Llywodraethu Ffederal gyfrifoldeb dros reoli'r gyllideb ar draws yr ysgolion. Gallai'r gyllideb ar gyfer pob ysgol unigol hefyd gael ei ddiogelu ar gyfer yr ysgol honno.

**C15.** A fydd yr ysgolion yn cael eu hariannu yn ôl yr un fformiwla ag ysgolion eraill os ydyn nhw'n rhan o Ffederasiwn?

**A** Bydd. Fel rhan o fformiwla ariannu'r Cyngor, caiff ysgolion eu hariannu ar sail nifer y disgyblion ac yn ôl costau eraill nad ydynt yn gysylltiedig ag addysgu. Pe bai'r ysgolion yn

cael eu cyfuno i fod yn ysgol sengl, byddai'r fformiwla yn cyfrifo cyllideb sengl a fyddai'n llai na chyllideb Ffederasiwn.

**C16.** A oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i gefnogi'r Ffederasiwn?

**A** Oes, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi arian grant ychwanegol i ysgolion sydd wedi eu ffedereiddio. Ar gyfer 2021/2022 mae'r ystod o grant sydd ar gael rhwng £6,000 a £12,000 fesul ysgol yn y Ffederasiwn.

**C17.** A fydd y Llywodraethwyr yn gwrando ar farn pobl yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ffedereiddio?

**A** Byddant. Mae'n ofynnol i'r Llywodraethwyr geisio barn y rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, a byddant yn cael cyfle i roi sylwadau ysgrifenedig a chael adborth llafar yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori. Ar ôl i'r holl sylwadau gael eu cyflwyno, mae'n rhaid i'r llywodraethwyr ystyried y pwyntiau a godwyd a gwneud penderfyniad yn sgil ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd.

**C18.** A oes modd i ragor o ysgolion ymuno â'r Ffederasiwn yn ddiweddarach?

**A** Oes. Pe bai'r Ffederasiwn yn cael ei sefydlu rhwng Ysgol Gymraeg Ffwrnes ac Ysgol Gymunedol Trimsaran, gallai ysgolion eraill ymuno â'r Ffederasiwn. Fodd bynnag, byddai angen cynnal ymgynghoriad newydd rhwng Ffederasiwn Ffwrnes/Trimsaran ac unrhyw ysgol newydd sy'n dymuno ymuno â'r Ffederasiwn.

**C19.** A fydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon pob ysgol yn aros ar wahân?

**A** Byddant. Bydd yr ysgolion yn cadw eu Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon eu hunain gan fod y rhain yn cael eu rhedeg gan rieni er budd yr ysgol unigol. Fodd bynnag, ar adegau gall Cymdeithas Rhieni ac Athrawon y ddwy ysgol gyfuno i gynnal rhai gweithgareddau - bydd hyn yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn y pwyllgorau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

**C20.** A fydd y Corff Llywodraethu ffederal newydd yn cynnwys Llywodraethwyr ysgol presennol?

**A** Bydd y Corff Llywodraethu Ffederal yn Gorff Llywodraethu newydd, a gellir enwebu / ethol Llywodraethwyr newydd neu bresennol i'r Corff Llywodraethu Ffederal yn unol â'r broses ddethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraethwyr ysgolion. Bydd pleidlais yn y ddwy ysgol ar gyfer Rhieni Llywodraethwyr.